

At sylw: Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Rhif/Ext: 01443 744062

Dyddiad/Date: 12.04.2019

Annwyl Syr/Madam,

**CYNIGION I SEFYDLU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD AR GYFER DATBLYGIAD
TAI LLANILID**

Yn dilyn cyhoeddi hysbysiad statudol ar 13 Chwefror 2019 a chyfnod hysbysu 28 diwrnod, daeth dim gwrthwynebiadau i law ynglŷn â'r cynnig uchod. Yng ngoleuni hyn, penderfynodd Cabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9 Ebrill 2019 i weithredu'r cynnig o 1 Medi 2021.

Cafodd y rhesymau dros y cynnig, a'r rhesymeg y tu ôl iddyn nhw, ynghyd â rhesymau dros y penderfyniad hwn i'w gweithredu nhw eu nodi'n llawn a'u hesbonio yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu'n eang ym mis Hydref, y llynedd. Trafododd y Cabinet hefyd yr holl sylwadau a ddaeth i law yn dilyn y broses ymgynghori a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2018. Fel nodwyd, ddaeth yr un gwrthwynebiad i law yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, a chan hynny dyna oedd sail penderfyniad i weithredu'r cynnig fel y nodwyd.

Mae crynodeb o'r rhesymau dros y penderfyniad i weithredu'r cynnigion isod:

- Cafodd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer adeiladu 1,850 o dai ar safle hen bwl glo brig Llanilid, Llanharan, ei gymeradwyo gan Bwyllgor Materion Rheoli Datblygu'r Cyngor ym mis Ionawr 2016.
- Er mwyn sicrhau bod modd bodloni'r galw am leoedd ysgol yn y blynyddoedd nesaf, trwy ddewis gyfrwng iaith y rheini, mae angen codi adeilad ysgol newydd;
- Mae'r gwaith i adeiladu 1,850 o anheddau yn cael ei ystyried yn gam cyntaf o'r hyn sy'n debygol o fod yn ddatblygiad llawer mwy o faint dros y blynyddoedd nesaf. O ganlyniad i hynny, bydd angen ystyried sefydlu darpariaeth addysg yn y dyfodol. Mae angen yr adeilad ysgol newydd hwn i fodloni'r ddarpariaeth addysg a fydd yn gwasanaethu'r ardal ehangach hon;
- Bydd y cwmni datblygu tai (Persimmon Homes) yn talu'r cost cyfalaf o adeiladu'r ysgol newydd, trwy ei gyfrifoldebau Ardoll Seilwaith Cymunedol.

Mae rhagor o wybodaeth am y crynodeb yn rhan o'r ddogfen ymygyngori. Cafodd honno ei dosbarthu'n eang i bawb yr ymgynghorwyd ag e ym mis Hydref 2019. Mae'r ddogfen ar gael i bawb ei gweld ar wefan y Cyngor:

Tŷ Trevithick
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024

Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services


Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/SchoolConsultations/Schoolconsultations.aspx>

Penderfynodd y Cabinet, felly, i gymeradwyo'r cynigion fel roedden nhw wedi'u nodi yn yr Hysbysiad Statudol. Sef, bydd darpariaeth Addysg Gynradd yn cael ei sefydlu i wasanaethu'r datblygiad tai newydd yn Llanilid, Llanharan. Caiff hyn ei wneud yn y lle cyntaf, trwy gyfrif yr adeilad newydd a fydd yn cael e iddarparu gan y datblygwyr tai fel estyniad i'r ddarpariaeth ddwy iaith yn Ysgol Gynradd Dolau. Mae'r gwaith yn amodol ar ganlyniad boddhaol y cysyniadau statudol perthnasol.

Yn gywir,



Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

Tŷ Trevithick
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024

Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwngch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.